# maethu

maethu cymru
foster wales

## rhiant a phlentyn



## Cadwch deuluoedd gyda'i gilydd

Rhowch y cyfle gorau i blant aros gyda'u rhieni.

# A allech chi agor eich cartref i riant - neu rieni - a'u babi, a rhoi'r dechrau diogel a chefnogol sydd ei angen arnynt i dyfu gyda'i gilydd?

## beth yw maethu rhiant a phlentyn?

Mae maethu rhiant a phlentyn yn fath arbenigol o faethu. Yn lle gofalu am blentyn yn unig, rydych chi'n croesawu rhiant - weithiau'r ddau riant - a'u babi i'ch cartref.

Nid yw'n ymwneud â chymryd babanod i ffwrdd o'u teuluoedd. Mae'n ymwneud â chadw teuluoedd gyda'i gilydd.

**Am tua 12 wythnos, rydych chi'n darparu amgylchedd diogel a thawel lle gall rhieni wneud y canlynol:**

- Dysgu gofalu am eu babi ym mywyd bob dydd
- Meithrin arferion a hyder
- Cryfhau eu cwlwm emosiynol â'u plentyn
- Ennill y sgiliau bywyd a'r rhwydwaith cymorth sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen

## y nod

I'r rhiant a phlentyn adael eich cartref gyda'i gilydd, yn gryfach, a chyda'r hyder i adeiladu dyfodol fel teulu.

**"Yn gyntaf, mae angen i chi ennill eu hymddiriedaeth. Rydych chi'n dechrau'n araf trwy ofalu am y mamau fel y gallant wneud yr un peth i'w babanod. Pan fyddant yn dod adref o'r ysbyty, maen nhw wedi blino, felly rydych chi'n coginio prydau bwyd iddyn nhw, yn eu helpu i gael gorffwys ac yn dangos iddyn nhw eich bod chi'n malio/hidio amdanyn nhw."**
Gofalwr Maeth Maethu Cymru

Yn ystod yr amser hwn, rydych chi'n arsylwi, yn arwain ac yn annog. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cynnal yr asesiad ffurfiol, ond mae eich mewnwelediad a'ch rôl fel y gofalwr maeth yn hanfodol.



# pam mae ei angen?

**Dydyn ni ddim yn cael ein geni i wybod sut i fod yn rhieni. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dysgu gan ein teuluoedd ein hunain, neu gyda chefnogaeth gan ffrindiau yn y dyddiau cynnar hynny. Ond beth os nad oedd gennych chi hynny?**



**Efallai bod rhai rhieni sydd angen cefnogaeth wedi:**

- Tyfu i fyny mewn gofal eu hunain
- Profi cam-drin domestig
- Wynebu heriau fel caethiwed, iechyd meddwl gwael, neu anghenion dysgu
- Cael plant wedi'u tynnu oddi wrthyn nhw yn y gorffennol ac yn awr eisiau gwneud pethau'n wahanol

**Mae'r rhieni eisiau dysgu. Maen nhw eisiau aros gyda'i gilydd. Maen nhw'n haeddu'r cyfle i ddangos y gallant fod y rhiant gorau i'w plentyn.**

### Chwalu rhwystrau

Gall cymdeithas fod yn gyflym i farnu - yn enwedig mamau ifanc, rhieni sengl, neu'r rhai sydd wedi wynebu heriau. Mae llawer yn cario pwysau stigma cyn iddyn nhw hyd yn oed gael cyfle i brofi eu hunain. Mae maethu rhiant a phlentyn yn darparu'r gwrthwyneb:

**lle diogel, cefnogol lle gall rhieni ddysgu, tyfu, ac adeiladu dyfodol gyda'u plentyn.**

## mae'n cymryd math arbennig o ofalwr

Mae'r math hwn o faethu yn waith caled. Efallai na fydd rhieni bob amser yn dangos diolchgarwch. Gallent fod yn amddiffynnol, yn ansicr, neu'n wrthwynebus ar y dechrau. Ond gydag amynedd ac empathi, gallwch eu helpu i ennill hyder a sefydlogrwydd.

**Eich rôl chi yw cynnig sgaffaldio:** Cefnogi lle bo angen, camu'n ôl pan fo'n bosibl. Efallai y bydd rhai rhieni'n ymwybodol o hanfodion bwydo a gofalu ond yn cael trafferth emosiynol oherwydd trawma. Efallai y bydd angen canllawiau mwy ymarferol ar eraill. Beth bynnag yw'r man cychwyn, rydych chi yno i helpu..

## y buddion

Gwylio rhiant yn tyfu mewn hyder, plentyn yn creu cwlwm gyda'i riant, a theulu'n cael y cyfle gorau i aros gyda'i gilydd.

# a allech chi helpu i gadw teulu gyda'i gilydd?

Mae maethu rhiant a phlentyn yn un o'r mathau mwyaf heriol o faethu - ond mae hefyd yn un o'r rhai mwyaf gwerth chweil. Gyda'ch arweiniad chi, gall rhieni adael gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydwaith cymorth sydd eu hangen arnynt i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w plentyn.

Byddwch yn derbyn:

- Hyfforddiant llawn a chymorth parhaus
- Cyngor 24/7 pryd bynnag y bydd ei angen arnoch
- Lwfansau ariannol i'ch cefnogi yn eich rôl

Yn bwysicaf oll, byddwch yn rhoi cyfle i blant aros gyda'r bobl sy'n eu caru fwyaf - eu teulu.



## Cysylltwch â'ch tîm Maethu Cymru lleol:

**Maethu Cymru Blaenau Gwent**
01495 369620 fostering@blaenau-gwent.gov.uk

**Maethu Cymru Caerffili**
0800 587 5664 fostering@caerphilly.gov.uk

**Maethu Cymru Sir Fynwy**
01291 635682 familyplacement@monmouthshire.gov.uk

**Maethu Cymru Casnewydd**
01633 656615 fostering@newport.gov.uk

**Maethu Cymru Torfaen**
01495 766669 fosterwalestorfaen@torfaen.gov.uk

**Gwefan**
www.maethucymru.llyw.cymru/gwent_cy

SGANIWCH FI

maethu cymru | foster wales

Blaenau Gwent · Caerphilly / Caerffili · Newport / Casnewydd · Torfaen · Monmouthshire / Sir Fynwy